



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

O'R CYNRADD I'R UWCHRADD — PROFIAD ATHRO



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

MEURIG JONES YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD

Mae'r Pennaeth Meurig Jones wedi gweld budd y Cynllun Pontio ac yn annog eraill i wneud cais i barhau i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Meurig wedi gweld drosto'i hun y budd y gall athrawon cynradd ei roi i ysgol uwchradd.

“Rwy'n meddwl bod athrawon cynradd wedi dod â'r ddealltwriaeth honno o sut mae dysgwyr yn gwneud cynnydd ar draws eu dysgu cwricwlwm cyfan. Lle'r ydym yn edrych ar gwricwlwm newydd yma yng Nghymru, mae'n rhoi'r fantais honno eu bod yn gallu defnyddio eu sgiliau nid yn unig mewn un maes, ond gallant fynd yn drawsgwricwlaidd i gynnig llawer o bynciau gwahanol. I ysgol fach fel ni, mae'n bwysig bod gennym ni bobl sy'n gallu addysgu mewn gwahanol feysydd. Roedd hynny'n un peth pwysig ddaeth i'r amlwg o'r gorgyffwrdd hwn.”

Mae dod â mwy o athrawon i'r sector uwchradd trwy'r Cynllun Pontio hefyd yn dod â budd ehangach i'r Gymraeg.

“Mae'n wych bod gan Lywodraeth Cymru darged o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar brofiad pobl o

ddefnyddio'r iaith. Ry' ni angen pobl i ddod i fyd addysg - mae cymaint o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd a chyflogaeth nawr, ond mae mor bwysig ein bod ni'n eu cael nhw yma i ddysgu, i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o siaradwyr Cymraeg.”

A beth fyddai cyngor Meurig i rywun sy'n ystyried y Cynllun Pontio?

“Yr hyn sy'n rhaid i ni ystyried yw y gallai'r uwchradd fod ychydig yn frawychus - efallai nad oedden nhw wedi bwriadu hyfforddi yn y maes hwn. Felly, yr hyn ry' ni am ei roi iddynt yw profiad graddol, mewn addysg uwchradd, yn fwy na dim. Rhoi'r cyfle iddynt arsylwi a gweithio gydag eraill, ond hefyd cael mentor yn yr ysgol y gallant fynd ato am gyngor... fel eu bod yn gwybod eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn ac nid yn cael eu taflu i mewn i'r pen dwfn.”